

| | | | | | |
|-----------------------------|------------------------------------|----------------------|---------------|---|-----------------------------------|
| Ymyriad | Sgiliau Cywir | | Gwyrdd | Cynnydd cyfredol ar y targed | |
| | | | Oren | Cynnydd ar ôl y targed ond yn dal yn bosibl | |
| Swyddogion arweiniol | Gary Handley & Martin Featherstone | Cyfnod adrodd | Chw.3 2018-19 | Coch | Cynnydd ymhell y tu ôl i'r targed |

Cyflawniadau a Llwyddiannau Allweddol

Sefydlu'r Bwrdd Ymyriad gan ddod â phartneriaid allweddol ynghyd - CDC, Prifysgol De Cymru, Coleg Gwent, BIPAB, Gyrfa Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Ysgol John Frost, Ysgol Gynradd Monnow, Rhwydwaith Economaidd Casnewydd, Y Fforwm Iaith. Cynhaliwyd Gweithdy, cynllun gweithredu wedi'i gytuno ac arweinwyr partner wedi'u nodi ar gyfer pob cam.

Cynhaliwyd Ffair Swyddi Casnewydd ym mis Hydref gyda 55 o gyflogwyr. O ganlyniad, aeth 240 o unigolion i mewn i gyflogaeth. Cymerodd fforymau BGC ran eleni: SWFRS BIPAB; Newport Live; Landlordiaid cymdeithasol Melin Homes & Pobl

Cynllunio ar y gweill ar gyfer Ffair Swyddi Prentisiaid a, gyda Grŵp Digidol NEN, ar gyfer Cynhadledd Ddigidol Ysgolion a anelir at Flynyddoedd 6 a 7 (gyda'r nod o ysbrydoli disgyblion iau i ddilyn gyrfaoedd technoleg ddigidol).

Gwneud cynnydd ar ddatblygu "Ymrwymiad Casnewydd", llwyfan ar y we sy'n dod â chyflogwyr a cheiswyr gwaith yng Nghasnewydd at ei gilydd.

Cais llwyddiannus am gyllid i Lywodraeth Cymru i asesu a chefnogi datblygiad sgiliau Saesneg a darparu hyfforddiant cyflogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Cyflwynwyd cais i Gasnewydd ddod yn Gynllun Braenaru ar gyfer "Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar" i gefnogi newid yn y system fel bod gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn glir ac yn hawdd eu cyrraedd i ddefnyddwyr.

| Prif risgiau / Rhwystrau rhag cynnydd | Statws (U/C/I) | Gweithrediadau lliniaru/ cymorth sydd ei angen |
|--|----------------|--|
| Diffyg ymrwymiad gan ddarparwyr / dysgwyr. | C | Nodi cyfleoedd ymgysylltu a chyfathrebu. |

| Mesurau Perfformiad Allweddol | Targed | Gwirioneddol | CAG |
|--|--------|----------------------|-----|
| Ymadawyr ysgol Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). | | Ffigur blwyddyn lawn | |
| Ymadawyr ysgol Blwyddyn 13 nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant (NEET). | | Ffigur blwyddyn lawn | |
| Digwyddiadau sgiliau / gyrfaoedd a gyflenwyd. | 3 | 1 | G |

Cytuno ar ddangosyddion perfformiad pellach ar gyfer 2019/20

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf

Swyddogion arweiniol i gyfarfod â Chyngor Ieuentid Casnewydd i gynnwys pobl ifanc mewn Sgiliau Cywir.

Cyflenwi Ffair Swyddi Prentisiaid.

Datblygu rhaglen o weithgareddau ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion.

Datblygu digwyddiad Gyrfaoedd STEAM.

Sesiynau gydag ysgolion ynglŷn â'r fenter Dosbarth Busnes / cysylltiadau â chymorth busnes / gyrfaoedd.

Datblygu rhaglen brentisiaeth a rennir gan y BGC.

Adrodd ar berfformiad yn erbyn y Fframwaith Dilyniant Ymgysylltu â Phobl Ifanc trwy'r Bwrdd Ymyriad Sgiliau Cywir.